

Cofnodion cyfarfod 9 Hydref 2018 a gynhaliwyd yn y Neuadd Goffa, Y Felinheli am 6.30 yn yr hwyr.

PRESENNOL

Daniel Williams	Einir Coates
Casi Roberts	Iwan Huws
Eifion Williams	Nerys John
Aled Emyr	
Iestyn Harris	
Wynne Barton - Swyddog Ariannol	Gareth Griffiths - Cynghorydd Sir

1.0 GEIRIAU AGORIADOL Y CADEIRYDD AC YMDDIHEURIADAU

	Agorwyd y cyfarfod gan y Cadeirydd. Derbyniwyd ymddiheuriadau oddi wrth Gruff John.
--	---

1.1	<p>Croesawodd y Cadeirydd y Parchedig Ganon Robert Townsend i'r cyfarfod a'i wahodd i annerch y Cyngor.</p> <p>Dywedodd y Parchedig y byddai yn siarad am Eglwys Santes Mair y Felinheli, Neuadd yr Eglwys a Mynwent Llanfairisgaer.</p> <p>Eglwys Santes Mair Roedd y Gwasanaeth olaf yn yr eglwys yn 2015 a'r llynedd dywedodd yr Esgob nad oedd mwyach eu hangen fel addoldy. Y drefn gyda'r Eglwys yng Nghymru yw bod rheithordai ag eglwysi ym mherchnogaeth Caerdydd ond yn cael ei rhedeg yn lleol, cyn gynted ac mae'r gynulleidfa ac yna'r esgob yn penderfynu nad yw mwyach ei hangen yna mae cyfrifoldeb yn symud i Gaerdydd, byddai Caerdydd yn gyfrifol am yr yswiriant. Fel pob elusen arall fyddai Caerdydd yn gyfrifol am gael y pris gorau os am ei gwerthu. Yn achos y Santes Mair mae ficerdy ar yr un safle. Mae'r Ficerdy yn wag ers yr Haf. Does dim penderfyniad wedi ei wneud a'r ficerdy hyd yn hyn. Nid oedd y Parchedig yn gweld byddai un eiddo yn cael ei werthu heb y llall oherwydd yr anhawster mynediad. Gofynnwyd beth oedd achos cau'r eglwys; atebwyd bod y Felinheli gyda dwy Eglwys ac un Neuadd Eglwys ac felly roedd costau mawr i redeg tri adeilad ar y gynulleidfa, roedd methiant i dalu cyfran gweinidogaeth yr Esgob felly penderfynwyd gan y gynulleidfa i gael gwared ac un adeilad. Nid oedd y Parchedig yn gallu rhoi syniad o gyflwr yr adeilad oherwydd nid oedd adroddiad cyflwr yn ei eiddo. Anfonwyd llythyr i'r Esgob i nodi nad oedd angen yr adeilad mwyach, yr esgob yn derbyn, hysbysebu Gaerdydd a chyfrifoldeb am yr adeilad yn symud i Gaerdydd.</p>
-----	--

Gofynnwyd a byddai'r Eglwys yn gallu cael ei werthu ac yna yn gallu cael priodasau ac angladdau yno; atebwyd byddai hyn yn bosib fel yn Llanfaglan lle mae'r eglwys honno mewn perchnogaeth yr Eglwys Ddwyfeillion. Byddai angen trwydded ar gyfer priodasau ond nid ar gyfer angladdau.

Y Neuadd - dim newydd da.

Mewn deunaw mis ar ymddeoliad Rheithor Gaernarfon bydd Y Felinheli yn symud i fod o dan Weinidogaeth Bro Caernarfon. Fel plwyf newydd bydd rhaid iddynt gynnal arolwg o'u heiddo i benderfynu beth sydd ei angen. Roedd y Parchedig yn mynegi rhwystredigaeth. Er mwyn trio a symud rhywbeth ymlaen y cam cyntaf fyddai i siarad ag Archddiacon Mary Stallard. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw gynlluniau. Roedd cynllun i ailwampio'r neuadd. Roedd yn cydnabod gwaith y Felingylchu ac roedd hyn yn dangos bod defnydd i'r adeilad. Hefyd mae'r adeilad yn gallu talu am ei hun oherwydd y sprung floor. Cytundeb y Felingylchu oedd eu bod yn cael defnydd o'r neuadd yn rhad ag am ddim a bod cyfraniad o'r elw yn mynd at Eglwys Llanfairisgaer a'r Neuadd. Roedd Gareth Griffiths o dan yr argraff bod amserlen yn bodoli ar yr arian sydd wedi ei godi a'i glustnodi ar gyfer y neuadd a bod blwyddyn yn parhau. Dywedodd y Parchedig nid oedd yn ymwybodol o unrhyw amserlen a byddai yn edrych i mewn i'r mater.

Y Fynwent

Dywedodd y Parchedig fod yn gweithio yn agos gyda Brinley ac Ieuan sef Parch. Diolchodd i'r Cyngor Cymuned am eu rhodd flynyddol at y fynwent a bod yr arian hwn yn cael ei drosglwyddo i Parch. Y drefn yw bod costau cynnal y ddwy fynwent yn cael ei rhannu rhwng Parch a'r Eglwys. Cafwyd eglurhad bod mynwentydd llawn cyn 1920 wedi eu datgysylltu ond bod mynwentydd a lle heb ond erbyn heddiw mae'r rhain yn llawn ac nid yw mynwentydd llawn yn dod ac incwm. Mae mynwent o amgylch Eglwys Llanfairisgaer yn llawn tra bod yr un newydd gyda lle. Felly mae cynnal y fynwent yn dibynnu ar roddion. Hyn oedd yr achos yn Llanfairisgaer hyd at dair blynedd yn ôl. Roedd cost o dorri'r ddwy fynwent oddeutu dau fil.

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Penderfynwyd cynnal cyfarfod gyda'r Archddiacon - Y Clerc i drefnu gwahoddiad iddi i'r cyfarfod misol nesaf.	CLERC
2.0	ADRODDIAD Y CYNGHORYDD SIR	
	<p>Dywedodd y Cyngorydd Sir byddai'r Cyngor Cymuned yn derbyn anfoneb am gynnal gwasanaeth y Toiledau Cyhoeddus am y ddwy flynedd ddiweddar. Esboniodd y Clerc wrtho fod y Cyngor Cymuned yn disgwyl y wybodaeth ddiweddaraf gan Swyddog Eiddo'r Cyngor. Hefyd eglurwyd nad oedd y Cyngor Cymuned wedi derbyn yr un ymgynghoriaeth oddi wrth y Cyngor Sir ynglŷn â thalu am gynnal y gwasanaeth toiledau cyhoeddus o fewn y pentref. Nid yw'r gost hyn wedi ei gynnwys yng nghyllideb drafft y Cyngor. Dywedodd y Cyngorydd Sir y byddai yn delio a'r mater.</p> <p>Dywedodd hefyd bod Llywodraeth Cymru wedi datgan cyllideb y Cyngorau Sir am y flwyddyn i ddod, mae'n debygol bydd Cyngor Gwynedd yn derbyn gostyngiad felly bydd gwasanaethau yn llai neu debyg. Dywedodd byddai angen i'r Cyngorau Cymuned wneud penderfyniad ynglŷn â chodi'r praesept i sicrhau gwasanaethau fel torri gwair sydd ddim yn weithgaredd statudol.</p> <p>Cafwyd trafodaeth ynglŷn â'r mater o dorri gwair a'r toriadau ychwanegol. Y Clerc i gysylltu â Geraint Hughes Cyngor Gwynedd ynglŷn â'r mater o dorri gwair a'r toriadau ychwanegol, cut and collect ac yn y blaen. Ar hyn o bryd mae 3 toriad a bod un cyn y Gaeaf.</p>	<p>G.G</p> <p>CLERC</p>
3.0	DATGAN DIDDORDEB	
	DIM	
4.0	CADARNHAU GWARIANT MIS BLAENOROL A'R ADRODDIAD ARIANNOL BLAENOROL	
4.1	Cyflwynodd y Swyddog Ariannol gwariant ac adroddiadau'r Cyngor ar gyfer mis Medi. Derbyniwyd y gwariant ac adroddiadau. Cynigwyd ac eiliwyd fel rhai cywir.	
4.2	Dywedodd y Swyddog Ariannol pwy oedd wedi derbyn grant a phwy oedd wedi anfon mantolen. Cyflwynwyd copi o bolisi grant bach (Adran 137) y Cyngor ac yn unol â hwn roedd angen i gyrff oedd yn derbyn £100 neu fwy anfon mantolen. Penderfynwyd anfon at Ffrindiau'r Ysgol, Ras Hwyllo a Chlwb Pheldroed Ieuencid am gopi o'u mantolen. (Gweler atodiad A am y polisi).	SWYDDOG ARIANNOL
4.3	Cyflwynwyd Cyllideb Drafft diwygiedig yn	SWYDDOG ARIANNOL

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	<p>cynnwys newidiadau cyfeiriwyd atynt yng nghyfarfod misol diweddar y Cyngor. Derbyniwyd y Gyllideb drafft diwygiedig. Dywedodd y Cadeirydd bod archwiliad o'r hen gysgodfan bws yn Aberpwll wedi ei wneud a bod gwaith cynnal cynhwysfawr arno ac o ganlyniad bydd y gost yn fwy. Dywedodd y Swyddog Ariannol oherwydd mai gwaith cynnal a chadw oedd y gost, byddai ddim angen eitem ychwanegol o fewn y gyllideb drafft.</p>	
4.4	<p>Polisi 137 - mae yn datgan bod y polisi i'w adolygu pob dwy flynedd. Penderfynwyd gwneud hyn yng nghyfarfod nesaf y Cyngor.</p>	CLERC
4.5	<p>PACG - cyflwynwyd Adran 13 ar gyfer 2019. Penderfynwyd nad oedd dim Sylwadau. Esboniodd y Swyddog ariannol am yr arian blyneddol i Gynghorwyr a bod rhai e-byst wedi eu derbyn i ddatgan nad ydynt am dderbyn yr arian. Eglurodd y Cadeirydd pam nad oedd ef am dderbyn yr arian a mater personol oedd hyn ac nid i ddylanwadu a'r penderfyniad unigolion eraill.</p>	
4.6	<p>Eglurodd y Swyddog Ariannol nad oedd yr adroddiad terfynol yn barod hyd nes diwedd mis Hydref gan DBO. Hefyd dywedodd bod DBO yn datgan bod angen rhoi hysbysebion a'r bwrdd hysbysfwrdd ond roedd hyn yn groes i gyngor yr SLCC.</p>	
5.0	CADARNHAU COFNODION MIS BLAENOROL	
5.1	Cadarnhawyd cofnodion mis Medi fel rhai cywir.	
6.0	NEUADD	
6.1	<p>Derbyniwyd ymddiswyddiad y Gofalwraig. Cyfeiriodd y Cadeirydd at ei gwaith didwyll ers blyneddodded, diolchodd yn gyhoeddus iddi am ei gwaith. Bydd yn gorffen ar y 7fed o Dachwedd 2018.</p>	
6.2	<p>Is-bwyllgor wedi cyfarfod ac mae swydd ddisgrifiad yn barod. Mae angen symud ymlaen i hysbysebu ac i recriwtio. Penderfynwyd ar 9 y bore 23 o Hydref fel dyddiad Cau. Bydd is-bwyllgor y neuadd ac is-bwyllgor cyflogaeth yn cyfarfod i benderfynu rhestr fer a dyddiad cyfweld. Cynghorydd Nerys John i'w roi ar Facebook a'r Clerc i sicrhau ei fod yn y C & D. Gobeithir i'r Swydd i gychwyn ar y 8fed o Dachwedd.</p>	NJ/CLERC
6.3	<p>Diolch i'r Cynghorydd Iestyn Harris am Amodau a Thelerau hurio'r Neuadd, gwnaethpwyd un newid.</p>	CLERC

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Y Clerc i sicrhau eu bod pellach yn cael eu rhoi ar y wefan. Gobeithir bydd y gallu i hurio'r neuadd yn cychwyn ar yr 8fed o Dachwedd 2018.	
6.4	Rhodddwyd adroddiad gan y Cadeirydd ynglŷn â gwaith ar y neuadd. Mae gwaith selio'r ffenestri y tu allan wedi ei gwblhau. Gwaith selio'r concrete wedi ei gwblhau. Mae rhai o'r ffenestri angen eu hatgyweirio nesaf, angen pris gan Window Medic. Angen gwneud y Porch. Mae pris wedi ei dderbyn am baentio rhannau o'r neuadd, dangosodd y Cadeirydd y rhannau hynny. Penderfynwyd bod y pris oddeutu £500 yn dderbyniol. Mae'r contractwr yn barod i weithredu yn yr amser rhwng defnydd o'r neuadd. Roedd y Cynghorydd Casi Roberts wedi cael pris am hysbysfwrdd sef £256.80 am un maint 75 x 970. Penderfynwyd bod hwn yn dderbyniol. Y Clerc i archebu'r hysbysfwrdd	DW CLERC
6.5	Diolchodd y cadeirydd i aelodau'r is bwyllgor Neuadd am osod llinellau melyn newydd ar y llawr.	
7.0	ADRODDIAD COFEB Y CLOC	
7.1	Cafwyd gwybodaeth bod 3 bulb newydd eu hangen. Y Cadeirydd am gael y bylbiau a'r Cynghorydd Eifion Williams am helpu i osod hwy bore Sadwrn.	
7.2	Sul y Cofio - angen llenwi ffurflenni newydd ar gyfer cau'r ffordd. Y Cynghorydd Eifion Williams am sicrhau bod y rhain yn cael eu llenwi a'u hanfon at y Clerc cyn gynted a phosib. Mae angen gwirfoddolwyr eto eleni i gau'r ffordd. Darlleniadau eu hangen gan y Cynghorydd Nerys John ac aelodau o Brownies, Cynghorydd Casi Roberts am gysylltu â'r Brownies. Y Parch Jeffrey Hughes fydd yn arwain y Gwasanaeth, y Cadeirydd yn gyfrifol am ei gludo i'r gwasanaeth. Bydd arddangosfa yn y neuadd dan arweinyddiaeth y Cynghorwyr Casi Roberts ac Eifion Williams. Penderfynwyd bod cyllideb o £100 ar gyfer yr arddangosfa yn ogystal â £50 ar gyfer lluniaeth ar ôl gwasanaeth Sul y Cofio yn y neuadd a £50 ar gyfer yr ysgol Gynradd Y Felinheli sydd yn mynd i wneud gwaith ar gyfer yr arddangosfa.	EW/CLERC
7.3	Dywedodd y Cadeirydd ei fod wedi bod yn siarad gyda Len Williams a bod lluniau'r pentref angen eu gwarchod gan y Cyngor Cymuned.	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Penderfynodd y Cyngor bod hwn yn dderbyniol ac am edrych ar eu hol ar gyfer y dyfodol. Mae gan Mr Len Williams lyfrau hefyd a ellir cael eu gwerthu a'r arian fynd at y Leng Brydeinig. Bydd y Cadeirydd yn gyfrifol am gael torchau ar gyfer y Sul. Bydd modd hefyd i dderbyn cacennau oddi wrth wirfoddolwyr. Bydd y Cadeirydd yn cysylltu gyda Len Williams.	
8.0	CEISIADAU CYNLLUNIO	
8.1	C18/0783/20/LL – Estyniad blaen – 39 Ger y Nant, Y Felinheli, , LL56 4PF – DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.2	C18/0780/20/LL - lleoli 4 uned llety gwyliau tymhorol ar ffurf cwt bugail ynghyd a chawod (cais diwygiedig i'r hyn a wrthodwyd o dan gyfeirnod C18/0393/20/LL) - Fferm Plas Llanfair, Ffordd Caernarfon Y Felinheli LL55 1TT - DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.3	C18/0804/20/LL – estyniad – Trem y Don, Ffordd Brynffynnon, Y Felinheli LL56 4SX – DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.4	C18/0807/20/LL – creu balcony newydd yn nhy blaen yr eiddo – 8 Trem y Foel Y Felinheli LL56 4UZ – DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.5	C18/0816/20/CC- Lleihau canghennau coed sy'n destun gorchymun coed 3/TPOA40 – 1 pendorlan, Y Felinheli, LL56 JH – DIM GWRTHWYNEBIAD	
8.6	C18/0814/20/LL – Addasu adeiladau allanol i fod yn anecs i'r annedd a adnabyddir fel rhif 2 Bythynnod Pen yr Allt – 2 Bythynnod Penrallt, Y Felinheli LL56 4QJ – DIM GWRTHWYNEBIAD	
9.0	ADRODDIAD Y FYNWENT	
9.1	Cafwyd adroddiad bod angen toriad ychwanegol - y clerc i anfon at y contractwr.	CLERC
10.0	ADRODDIAD MAES PARCIO, LON LAS A SAFLE MORIAH	
10.1	Diolchodd y Cadeirydd i bawb oedd wedi helpu gyda'r lafant.	
10.2	Rhoddwyd adroddiad gan y Clerc o'r hyn oedd wedi ei dderbyn ynglŷn â'r coed oedd wedi syrthio ar hyd y Lon Las.	
11.0	ADRODDIAD LLWYBRAU CYHOEDDUS, CYSGODFANNAU A MEINCIAU	
11.1	Cafwyd adroddiad bod coed wedi eu torri ger y Cerfluniau malwod. Mae'r Cynghorydd Sir wedi derbyn cadarnhad bydd y coed newydd yn cael eu plannu.	
11.2	Rhoddodd y Cynghorydd Nerys John adroddiad ynglŷn â map llwybr yr arfordir a bod y map yn anghywir ar wefan Cyngor Gwynedd. Roedd	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	wedi bod mewn cysylltiad â'r swyddog priodol.	
11.3	<p>Rhoddodd y Cynghorydd Nerys John adroddiad ynglŷn â'i chyfarfod a swyddogion llwybrau Cyngor Gwynedd. Roedd yn cyfarfod buddiol iawn dros ben. Cyfeiriwyd at adroddiad adolygiad 2017 y Cyngor Cymuned a'r gwaith sydd angen ei wneud. Bydd arwyddion yn cael eu gosod yn y flwyddyn ariannol 2019-2020.</p> <p>Gefnffordd.</p> <p>Cyfeiriwyd bod problemau gyda llwybr Pant yr Afallen, mae'n edrych nad yw wedi bod yn agored ers rhai blynyddoedd. Angen edrych eto ar Llwybr Carreg Goch. Mae problemau gyda llwybrau ar draws neu ger y gefnffordd. Roedd Y Cynghorydd yn fodlon iawn gyda'r cyfarfod. Roedd y Cyngor am ddiddymu Llwybr Llanfairisgaer ond maent am edrych eto arno. Cytunwyd i ddiddymu'r un sydd yn baralel i'r lon beics. Mae'r llwybr lawr i'r Fenai drwy'r coed yn cael ei ddefnyddio gan bysgotwyr. Cyfeiriwyd at Deddf Teithiau Llesiol.</p> <p>Gofynnodd y Cynghorydd Nerys John am ganiatâd gan Cyngor i ohirio adolygiad y llwybrau 2018 i fis Mai 2019 i roi amser i'r gwaith arwyddion gael ei gwblhau gan Gyngor Gwynedd. Penderfynwyd gohirio dyddiad yr adolygiad; hefyd gofynnodd Cyngor Gwynedd os byddai'r Cyngor Cymuned yn gohirio'r toriad cyntaf y llwybrau i ganol mis Mehefin oherwydd y blodau gwyllt. Cytunwyd ar hyn.</p>	EW
11.4	<p>Cysgodfannau.</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Cysgodfan newydd Seilo - Cynghorydd Eifion Williams wedi cael ymweliad safle gyda Swyddog Traffig a'r contractwr - disgwyl dyddiad cychwyn y gwaith. ii. Cysgodfan hen Seilo – pris ei dynnu ei lawr - £300, hyn wedi ei wneud oherwydd iechyd a diogelwch. iii. Glanhau cysgodfannau - Felin Ultra Clean - 9 mewn nifer £135.00 - cytunwyd ar hyn. iv. Mainc ger Stepiau Cei heb ddechrau hyd yma. 	
12.0	ADRODDIAD PRIFFYRDD	
12.1	<p>Rhoddodd y Cadeirydd adborth ar ôl mynychu cyfarfod blynyddol Cwmni Tregwylan.</p> <p>Rhoddodd cyflwyniad iddynt ar ffiniau a chyfrifoldebau'r Cyngor.</p>	

	<p>Yn neilltuo o'r cyfarfod roedd:</p> <ul style="list-style-type: none"> i. Mater Ferodo ynglŷn â diogelwch y safle. Y Clerc i'w neud ymholiadau ar y mater. ii. Llinellau melyn ger y bont-roedd problemau parcio o ganlyniad parcio cwsmeriaid y siopau a defnydd o'r maes parcio oherwydd cychod yn cael eu cadw yno. Mae parcio yn agos i gyffordd yn anghyfreithlon ond nid oes gorfodaeth yn digwydd. <p>Y Cynghorydd Gareth Griffith i ymholi Cyngor Gwynedd ynglŷn â hyn.</p> <ul style="list-style-type: none"> iii. Llwybr Hen Gei Llechi i Garddfon a'i gyflwr ar gyfer gwthio cadair olwyn neu bram. Nid oes gan y Cyngor gyfrifoldeb ar y llwybr, mae cyfrifoldeb gan y perchnogion. Mewn egwyddor mae'r Cyngor yn cytuno byddai prosiect i osod llwybr o darmac o fudd. iv. Y Cyngor yn cytuno i gyfarfod a pherchnogion y Marina er mwyn cael gwybodaeth ynglŷn â datblygiad a dyfodol y Marina a defnydd y maes parcio. 	
12.2	<p>Cyflwynwyd cynllun arfaethedig Cyngor Gwynedd i osod llinellau melyn gwahardd parcio ger y syrjeri. Trafodwyd y mater ac fel mater o gysondeb cytunwyd i wrthwynebu hyn oherwydd byddai gwahardd parcio fan hyn yn codi pwysau ar Ffordd Gaernarfon a manau eraill o fewn y pentref.</p>	
13.0	PROSIECTAU	
	<p>Cyflwynodd y Cynghorydd Nerys John wybodaeth ynglŷn â datblygu'r syniad o gael offer ymarfer corff tu allan. Roedd wedi bod mewn cysylltiad â pherchennog y Gym yn Dinas ac wedi cael cyngor. Gwell fyddai cael cylchdro o gwmpas y pentref gydag offer wedi ei osod bob hyn a hyn na chael offer i gyd ar Lan y Môr. Hefyd roedd wedi cael gwybodaeth ynglŷn â chael offer ar lan y Môr i blant hyn, hynny yw, ehangu'r Cae Chwarae. Penderfynwyd yn yr achos cyntaf i ehangu'r</p>	

CYNGOR CYMUNED Y FELINHELI

	Cae Chwarae er mwyn cynnwys offer i blant hyn.	
14.0	GWYDNWCH CYMUNEDOL	
	Cyflwynwyd y ddogfen Gwydnwch Cymunedol i aelodau'r Cyngor er mwyn iddynt gyflwyno eu sylwadau arno yn y cyfarfod misol nesaf.	CC
15.0	TOILEDAU CYHOEDDUS	
15.1	Gweler eitem 2.0	
16.0	GWEFAN	
16.1	Amodau a Thelerau hurio'r Neuadd yw rhoi ar y wefan. Cyfeiriadau'r Cylchdro Llwybr yr arfordir hefyd yw rhoi ar y wefan gan y clerc.	
17.0	MATERION AMRYWIOL	
17.1	Defib y Felin -4 difib wedi eu harchebu, bydd un ar y neuadd. Y Cyngor Cymuned i fod yn gyfrifol am y trydan, cynnal a chadw a batri newydd pob 5 mlynedd i'r defib i'w osod ar y neuadd. Gobeithir bu defib yn yr ysgol, Clwb Peldroed ac efallai toiledau Lan y Môr. Trafodwyd gosod un mewn kiosk BT yn Aberpwill. Y Clerc i'w neud ymholiadau ynglŷn â mabwysiadu'r kiosk. Bydd hyfforddiant yn cael ei drefnu yn y neuadd.	CLERC
17.2	Addurniadau Nadolig, - cytuno i osod coeden 4m. Cost y Goeden fydd £249.99 Y Clerc i archebu.	CLERC
	Daeth y cyfarfod i ben oddeutu 22:10	
Llofnod:		Dyddiad: